# CRYNODEB CYFARFOD
# Cyngor Cymuned Llandderfel

Nos Fawrth, Medi 5ed 2023 am 7.30 o'r gloch yn Neuadd Mynach.

Presennol: Eifion Davies (cadeirydd), Eilir Rowlands, Bethan Thomas, Gwynedd Jones, Rita Jones, Meilir Jones, Alwyn Jones. Gary Thomas, Gwynedd Jones, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.
Ymddiheuriadau: Gwenda Evans ac Iolo Evans.

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Gorffennaf 4ydd 2023) **Cymeradwywyd.**

ii) Datgan Buddiant – **Meilir Jones (cais cynllunio).**

iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.
a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.
b) Mynwentydd
i) Cais grant i Gronfa Cymunedau Eryri - **roedd y Cyngor wedi derbyn £4950 o'r gronfa ar gyfer creu'r llwybr troed ym mynwent Frongoch. Roedd y contractwr yn gobeithio cychwyn y gwaith ym mis Hydref.**
ii) Mynwent Llanfor – **darllenwyd yr adroddiad a oedd wedi cael ei baratoi gan yr arbenigwr coed a chytunwyd i symud ymlaen i wneud cais i Gronfa Melinau Gwynt Clocaenog am gyllideb i dorri'r coed fel y cynghorwyd. Trafodwyd hefyd y gwelliannau eraill i'w gynnwys yn y cais e.e. y gwaith na dderbyniwyd grant ar gyfer ym mynwent Frongoch, hysbysffyrddau, clirio a thacluso mynwent Llanfor ayyb.**
c) Damweiniau ar yr A494 **– yn dilyn y cyfarfod diwethaf roedd y Clerc wedi cysylltu â Mabon ap Gwynfor ac roedd yntau wedi gohebu a Llywodraeth Cymru a'r wasg ac wedi creu deiseb i gael cefnogaeth i'r achos.**

iv) Gohebiaeth
a) Cyngor Gwynedd.
i) Rhaglen Waith yr Adran Briffyrdd, mis Awst a Medi.
ii) Holiadur Cymunedau – ffiniau cymunedau'r sir a'r trefniadau etholiadol.

b) Fferm Wynt Gaerwen.
i) Diweddariad.

c) Cwmni Pum Plwy Penllyn.
i) Diweddariad.

ch) Un Llais Cymru.
i) Canllaw Gweithredu Hinsawdd a Natur ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru. **Cytunwyd i'w ddefnyddio wrth adolygu ein Hdroddiad Bioamrywiaeth.**

d) Parc Cenedlaethol Eryri.
i) Diweddariad ar feysydd parcio Llyn Tegid a Llangywer.

dd) Mabon ap Gwynfor, MS.
i) Cyfarfod i drafod darpariaeth ddeintyddol yn ein hardal. **Gofynnwyd i'r clerc fynychu'r cyfarfod ar ran y Cyngor.**

v) Ceisiadau Cynllunio
a) Cyngor Gwynedd – Rhybudd cyfarwyddyd erthygl 4 ar gyfer rheoli'r defnydd o dai preswyl.
b) Ceisiadau:-
i) Ymgynghoriad cais cyn cynllunio ar gyfer gosod gorsaf radio ffôn symudol ger Llyn Celyn.
ii) C23/0525/04/LL – codi storfa biswail. Bryn Derw, Glanrafon **(Meilir Jones yn datgan buddiant ac yn gadael yr ystafell yn ystod y drafodaeth).**
iii) A147 Deddf Priffyrdd 1980 Pŵer i awdurdodi codi giatiau, camfeydd ar lwybr cyhoedd, Llwybrau Cyhoeddus Rhif 164.
**Nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiadau lleol.**

vi) Materion Ariannol
a) Derbyniadau – ail randal y Praesept - £4,500.
b) Taliadau – Cyngor Gwynedd (archwiliad mewnol), Designer Signs, Anderson Tree Specialists.
**Cymeradwywyd.**
c) Ceisiadau Ariannol – Cerebral Palsy Cymru. **Cytunwyd i'w drafod gyda gweddill o'r ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.**

vii) Materion lleol.
**a) Cytunwyd i anfon y cwynion i'r adrannau perthnasol.**
**b) Llythyr gan drigolion Llanfor ynglyn â chael lloches bws gyferbyn a'r un presennol – cytunwyd i ail gysylltu â'r asiantaethau perthnasol.**

**CYTUNWYD I GYNNAL Y CYFARFOD NESAF AR NOS FAWRTH HYDREF 3YDD YN NEUADD MYNACH.**